# Cynhyrchu syniadau

O ble mae syniadau ar gyfer project yn dod? Wel, o unman weithiau. Ond dyw hynny ddim yn digwydd yn aml – y rhan fwyaf o'r amser mae angen gwneud bach o waith.

Ond dyw e ddim wastad yn ben tost.

Ymchwil yw'r cam cyntaf.

Dywed dy fod ti'n dylunio logo ar gyfer ymgyrch newydd ar yr amgylchedd. Penderfyna ar bwrpas yr ymgyrch - beth wyt ti'n ceisio ei gyflawni? Pwy yw'r gynulleidfa? Wedyn, edrycha i weld pa steil sydd wedi gweithio'n dda mewn ymgyrchoedd tebyg. Edrycha mewn llyfrau, cer ar y we, neu os yn bosibl, siarada gydag arbenigwyr yn uniongyrchol.

Mae'n ddefnyddiol deall pa ddyluniadau sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn ymgyrchoedd tebyg, ond nawr rhaid i ti feddwl am dy syniadau dy hun.

Gallet ti greu bwrdd syniadau, hynny yw casgliad o luniau a geiriau allweddol o dy ymchwil di. Dyw hi ddim wastad yn hawdd bod yn greadigol, ond mae bwrdd syniadau yn rhoi'r cyfle i ti gysylltu a chyfuno rhai o'r syniadau hyn mewn ffyrdd gwahanol.

Ond cofia ofyn i ti dy hun, "Beth yw pwrpas yr ymgyrch?"

Mewn geiriau eraill, paid â gadael i dy feddwl di redeg i ffwrdd gyda syniadau hollol wallgof.

Beth am greu map meddwl? Rho'r syniad pwysicaf yn y canol, yna ychwanega syniadau perthnasol er mwyn cysylltu popeth at ei gilydd.

Mae gweithio mewn grŵp yn ffordd ddefnyddiol o rannu a thrafod syniadau gyda phobl eraill, a gweld pethau o safbwynt gwahanol.

Hynny yw, cyn belled eich bod chi ddim yn dechrau cweryla – '*cam*syniad', nid syniad fyddai hynny.

Cofia fod angen parchu syniadau pobl eraill, a gwna'n siŵr fod unrhyw adborth rwyt ti'n ei roi wastad yn adeiladol.

Mae'n bwysig fod pawb yn cael cyfle i gyfrannu syniadau. Cofia mai weithiau'r person sydd bron byth yn siarad yw'r un sydd gyda'r syniadau gorau.

Felly, beth yw'r ffordd orau i gyflwyno dy syniadau di? Gall logo ymgyrch fod ar ffurf poster, blog, gwefan neu bamffled.


**© Hawlfraint BBC**

A phaid ag anghofio gofyn dy gwestiwn gwreiddiol – "Beth yw pwrpas yr ymgyrch?" Weithie bydd gen ti syniadau gwych, ond os nad ydyn nhw'n cyfrannu neu'n ychwanegu at y cynnwys, anghofia nhw.

Ti'n gweld? Mae'n cymryd bach o waith i gynhyrchu syniadau da, ond mae'n gallu bod yn lot o hwyl. A gyda bach o lwc, efallai byddi di a dy ffrindiau, wel, dal yn ffrindiau.

 © Hawlfraint BBC